# Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)
# Cwestiynau Cyffredin
# Cwestiynau Cyffredin am ESOL

Caiff Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, a sefydlwyd yn 2001, ei hariannu gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i hwyluso arweinyddiaeth strategol, cyngor a chydlyniant mewn perthynas ag ymfudo. Cynhelir y Bartneriaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i adlewyrchu ei rôl ledled Cymru gyfan mewn perthynas ag ymfudo.

Mae'r Cydlynydd ESOL yn y Bartneriaeth yn hyrwyddo mynediad i ddarpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) neu Gymraeg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (WSOL), ac mae'n gweithio gydag ystod eang o bartneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector am faterion ESOL a chyflogaeth i ffoaduriaid ac yn rhannu gwybodaeth ac adnoddau am gaffael y Gymraeg a'r Saesneg.

| |
|---|
| **Beth yw ESOL?** |
| **Bel allaf ddod o hyd i ddosbarthiadau ESOL?** |
| **Beth yw REACH a sut all helpu dysgwyr ESOL?** |
| **Beth yw'r rhwystrau i ESOL a chaffael iaith?** |
| **A oes ffordd o wneud cynnydd cyflymach tuag at gyflogaeth?** |
| **Beth yw WSOL?** |
| **Ble allaf gael help?** |
| **Beth yw eich manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth?** |

## Beth yw ESOL?

Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, neu **ESOL,** yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwersi Saesneg y mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael eu hannog i'w cael. I'r rhai sy'n cyrraedd o dan gynlluniau adsefydlu Llywodraeth y DU, (h.y. Cynllun Adsefydlu'r DU UKRS, Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Afghanistan ACRS a Pholisi Cymorth Adleoli Afghanistan ARAP), y disgwyl yw y byddant yn gallu cael mynediad at o leiaf 8 awr o ddarpariaeth yr wythnos cyn pen mis ar ôl cyrraedd.

Mae ESOL yn wahanol i Saesneg fel Iaith Dramor (EFL) gan fod y pwyslais ar anghenion iaith bob dydd y dysgwr, yn hytrach nag anghenion iaith busnes neu dwristiaeth. Mae angen sgiliau Saesneg ar ffoaduriaid, ceiswyr lloches ac ymfudwyr eraill y mae Saesneg yn ail iaith iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn integreiddio'n effeithiol a'u bod yn cael mynediad at wasanaethau hanfodol, gan gynnwys y GIG, addysg a bancio. Bydd angen lefel hyderus o sgiliau iaith arnynt er mwyn dod o hyd i waith hefyd. Mae hyfedredd iaith yn hanfodol er mwyn integreiddio.

## Bel allaf ddod o hyd i ddosbarthiadau ESOL?

Mae dosbarthiadau ESOL ar gael ym mhob coleg Addysg Bellach yng Nghymru. Mae Polisi ESOL Llywodraeth Cymru yn golygu bod ESOL yn cael ei ddarparu am ddim i ffoaduriaid a cheiswyr lloches nes y byddant wedi cyrraedd lefel ymarferol.

Mae faint o ddarpariaeth ESOL sydd ar gael yn unrhyw goleg yn dibynnu ar y galw yn lleol. Yn ddelfrydol dylai fod dosbarth ESOL ar bob lefel, ond nid dyna'r achos bob tro. Mae nifer o fyfyrwyr yn teimlo bod dosbarthiadau gallu cymysg naill ai'n rhy anodd neu'n rhy hawdd.

Efallai y bydd dosbarthiadau'n cael eu cynnal ar sail cofrestru a dadgofrestru, lle mae modd i fyfyrwyr ymuno ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd. Ar gyfer rhai dosbarthiadau, efallai y bydd yn rhaid i fyfyrwyr aros nes i dymor neu flwyddyn academaidd newydd ddechrau.

Mae Addysg i Oedolion Cymru yn cynnig darpariaeth ESOL ar hyd a lled Cymru, a hynny wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae'r ddarpariaeth wedi'i hachredu ond wedi'i lleoli'n fwy cymunedol, a all deimlo'n fwy cyfforddus i rai. Gellir cysylltu ag Addysg i Oedolion Cymru (ALW) i drafod cynnig dosbarth pwrpasol i grwpiau o ddysgwyr ESOL.

Mae nifer o gwmnïau ar-lein hefyd yn cynnig cyrsiau ar lefelau amrywiol a gall y rhain fod yn ffordd ddefnyddiol o helpu myfyrwyr i wneud cynnydd yn gyflymach neu ddarparu ESOL tra bo'r myfyriwr yn aros i'r tymor ddechrau.

Mae Klik2Learn a Flash Academy wedi cael eu defnyddio gan Bartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru. Gall hefyd fod yn werth ystyried apiau fel Ailem, Duolingo, Babbel neu rywbeth tebyg. Mae'r Cyngor Prydeinig hefyd yn cynnig adnoddau ar-lein.

## Beth yw REACH a sut all helpu dysgwyr ESOL?

Mae Canolbwyntiau Asesu ESOL Rhanbarthol (REACH) wedi cael eu sefydlu yn y pedair ardal gwasgaru ceiswyr lloches yng Nghymru, sef Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam. Disgwylir i bob myfyriwr gael eu hasesu mewn canolbwynt REACH, cyn i gwrs gael ei ddyrannu iddyn nhw. Gall y canolbwyntiau REACH gynnig dull gweithredu holistaidd i ddarparu ESOL a chymorth cyflogaeth.

## Beth yw'r rhwystrau i ESOL a chaffael iaith?

Mewn rhai ardaloedd, gellir ond cael mynediad i ddosbarthiadau ESOL ar adegau penodol o'r flwyddyn, felly mae'n bosibl y bydd angen aros tymor cyfan tan y cyfnod cofrestru nesaf neu efallai y bydd rhestr aros gan fod y dosbarthiadau'n llawn. Mewn ardaloedd eraill, mae'n bosibl na fydd digon o alw er mwyn gallu cynnig

dosbarthiadau ar wahanol lefelau, a gall dosbarth gallu cymysg fod yn rhy heriol i'r rhai ar lefelau is, ac yn rhwystredig i ddysgwyr mwy galluog oherwydd eu diffyg cynnydd. I lawer, efallai nad gwersi mewn ystafell ddosbarth fydd y ffordd orau o ysbrydoli eu hyder a'u cymhelliant, oherwydd nad ydynt o bosibl wedi cael llawer o addysg flaenorol.

Mae diffyg gofal plant yn rhwystr sylweddol, sy'n atal pobl rhag mynychu dosbarthiadau.

Gall diffyg cludiant neu fethu â fforddio costau teithio i gyrraedd y dosbarth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, wneud pethau'n anodd.

Mae'r Trydydd Sector wastad wedi gallu cynnig darpariaeth ESOL werthfawr ac ychwanegol, ond nid yw'r rhwydwaith cymorth hwn wedi'i sefydlu ym mhob rhan o Gymru. Yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam, bydd gan REACH fanylion darpariaethau ESOL amgen trwy'r Trydydd Sector. Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn cynnig rhywfaint o ESOL ar-lein, a gellir cael mynediad ato o unrhyw ran o Gymru cyn belled a bod gan y dysgwyr offer a chysylltiad wi-fi.

## A oes ffordd o wneud cynnydd cyflymach tuag at gyflogaeth?

I nifer o fyfyrwyr ESOL, y nod yn y pen draw yw cael gwaith, a gall rhai deimlo rhwystredigaeth oherwydd yr amser a gymerir i gyrraedd lefel o Saesneg sy'n ei gwneud yn bosibl i wneud cais am swydd.

Bydd unrhyw gyfle i ymarfer siarad Saesneg y tu allan i'r dosbarth yn help mawr iawn. Efallai y bydd grwpiau Trydydd Sector lleol a all helpu i sefydlu canolbwynt sgwrsio. Mae elusen The FAN Charity yn cynnig cyfleoedd i wrando a siarad yn ddiogel ar-lein, yn ogystal ag wyneb yn wyneb mewn mwy a mwy o ardaloedd.

Mae gwirfoddoli hefyd yn ffordd dda o ennill hyder ieithyddol a sgiliau ychwanegol i'w rhoi ar CV. Mae nifer o elusennau bellach yn cynnig hyfforddiant a mentora i wirfoddolwyr ac yn addasu'r profiad gwirfoddoli yn unol â sgiliau'r gwirfoddolwr (e.e. rolau TGCh, addurno ffenestri, gwaith gweinyddol ac ati) Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddoli Cymru hefyd yn cynnig cyngor da am wirfoddoli a gwaith gwirfoddol.

## Beth yw WSOL?

Mae Cymraeg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn gyflwyniad i'r Gymraeg ac i fywyd a diwylliant Cymreig ac mae cyrsiau'n cael eu darparu gan Addysg i Oedolion Cymru.

## Ble arall allaf gael help?

Gall y rhain arwain at gyrsiau Cymraeg pellach trwy'r darparwr cenedlaethol, Dysgu Cymraeg.
Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru (WRC) yn cynnig cyrsiau ESOL a dolenni ESOL, yn ogystal â chefnogaeth cyflogadwyedd.

Gellir hysbysebu swyddi gwag yng Nghymru ar wefan Rhwydwaith Cyflogaeth Ffoaduriaid. Gall ffoaduriaid chwilio am swyddi gwag addas, a gall cyflogwyr hysbysebu swyddi gwag.

Gall Refuaid ddarparu cefnogaeth mewn perthynas ag iaith, cyflogaeth ac addysg.

Mae Ymddiriedolaeth Ruth Hayman yn dyfarnu grantiau i gefnogi addysg a hyfforddiant oedolion sydd wedi dod i ymgartrefu yn y DU, lle nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf ac sy'n methu â fforddio talu ffioedd llawn eu hastudiaethau. Mae pump rownd ariannu y flwyddyn, gyda rhwng £300 a £500 ar gael, a mwy ambell waith.

Mae Fforwm ESOL a Chyflogaeth Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru yn cyfarfod bob mis ac yn mynd i'r afael â llawer o'r cwestiynau hyn.

## Beth yw eich manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth?

Gallwch e-bostio unrhyw gwestiynau pellach at Gydlynydd ESOL y Bartneriaeth. E-bostiwch WSMPComms@wlga.gov.uk gan nodi 'ymholiad ESOL' fel pwnc eich neges.